ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 24ain Medi 2004, am 10.30am
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Palmer (C)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd D C Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd P A Rees	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D Lewis	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd A Robinson	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Y Cynghorydd R G Harris	Cyngor Sir Ceredigion

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Mrs M Taylor	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Y Cynghorydd P A Hacking	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

2. Ethol Cadeirydd / Is-gadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd P Palmer (Cyngor Sir Caerfyrddin) i barhau yn Gadeirydd y Fforwm ac etholwyd y Cynghorydd D Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) yn Is-gadeirydd.

Croesawodd y Cynghorydd Palmer yr holl Aelodau newydd i'r Fforwm.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2004

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol ar 25ain Mehefin 2004 – Nodwyd.

5. <u>Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol ar 13eg Awst 2004</u> – Nodwyd.

Eitem 4: Cadarnhaodd y Cynghorydd Palmer fod y Cynghorydd D C Evans wedi cymryd lle'r Cynghorydd T Theophilus.

6. <u>Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol ar 16eg Medi 2004</u> – Nodwyd.

7. <u>Sefyllfa Gyfredol y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol</u>

Amlinellodd GW y sefyllfa gyfredol a gosododd y broses yn y cyd-destun cenedlaethol. Pwysleisiwyd y pwyntiau canlynol:

- Cododd yr angen am Gynllun Gwastraff Rhanbarthol (CGRh) o ofynion TAN 21 Gwastraff;
- Mae pob un o'r tri Rhanbarth yng Nghymru wedi cynhyrchu ei GGRh ei hun;
- Cyflwynwyd y CGRh ar gyfer De-orllewin Cymru yn ffurfiol i LCC ym mis Chwefror;
- Mae CBS Castell-nedd Port Talbot yn y camau olaf o gytuno ar gontract gyda LlCC ar gyfer y 3 blynedd nesaf;
- Mae'r fframwaith a gyflwynwyd yn y CGRh yn nodi manylion y gofynion gallu ar gyfer pob ffrwd wastraff, fesul Awdurdod Unedol, ar gyfer y flwyddyn 2013;
- Cynhyrchwyd y Cynllun trwy weithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, LlCC, AA a rhan-ddeiliaid eraill;
- Nid yw'r CGRh yn nodi safleoedd / dyraniadau penodol ac, o ganlyniad, mae'r Rhanbarth yn ymroddedig i gynhyrchu Adendwm i'r CGRh a fydd yn archwilio ymhellach y posibilrwydd o drefniadau cydweithredol ar gyfer darparu cyfleusterau is-ranbarthol;
- Bydd yr Adendwm yn delio'n bennaf â chyfleusterau claddu sbwriel.

Gofynnwyd i bob awdurdod ddarparu diweddariad ar gynnydd CDUau unigol. Adroddwyd y canlynol:

CBS Castell-nedd Port Talbot: Ymchwiliad yn 2005;
Cyngor Sir Ceredigion: Ymchwiliad ym mis Ionawr 2005;
CBS Pen-y-bont ar Ogwr: Cam Addasu Ôl-Ymchwiliad, derbyn yn ystod gwanwyn 2005;
Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Ôl-Ymchwiliad, adolygu'r JUDP ar hyn o bryd i ystyried y CGRh;
Dinas a Sir Abertawe: Adolygu'r sefyllfa CDU / CDLl ar hyn o bryd;
Cyngor Sir Caerfyrddin: Ymchwiliad yn mynd rhagddo; ac
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Newidiadau arfaethedig cyn yr Ymchwiliad.

8. <u>Adendwm y CGRh</u>

Cyfeiriodd GW at yr adroddiadau *Adendwm y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol* a'r *Ymarfer Mapio GIS* a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ac amlinellodd yn fyr y cynnydd hyd yn hyn.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol yn y drafodaeth.

- Mae angen mireinio'r mapiau GIS ymhellach felly ni chawsant eu cyflwyno i'r Fforwm;
- Yn dilyn y gwaith sylweddol a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd i gyrraedd y cam hwn, maent wedi dweud na allant ddarparu unrhyw adnoddau pellach ar gyfer y maes gwaith hwn;
- Mae LlCC wedi dweud eu bod am barhau â'r gwaith da a'i estyn i gynnwys y ddau Ranbarth arall yng Nghymru;
- **Cytunodd** y Fforwm y dylai LlCC ymgymryd â'r gwaith pellach a nodwyd yn yr adroddiad ar frys;

- Cadarnhaodd SM fod arian ar gael ar gyfer ymchwil yng Nghyllideb y Strategaeth Wastraff;
- Mae manyleb prosiect (i'w chytuno gan y GTRh) yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd ar gyfer y broses dendro;
- Amcangyfrifir y bydd yr amserlen ar gyfer y gwaith rhwng 3 a 6 mis. Dylai adroddiad gorffenedig fod ar gael ym mis Chwefror / Mawrth 2005;
- Bydd y GTRh nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 1af Tachwedd i barhau â'r cynnydd;
- Adroddodd HB fod SLR Consulting Ltd wedi cynhyrchu adroddiad ar gyfer y Grŵp Swyddogion Trefol Rhanbarthol ynglŷn â'r gofynion isadeiledd ar gyfer y rhanbarth. Bydd casgliadau'r adroddiad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Fforwm. **Gweithredu**: HB.

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm ynglŷn â 'chronni' targedau'r rhanbarth, adroddodd SM y byddai swyddogion o'r Uned Strategaeth Wastraff yn gallu darparu'r arwydd gorau o'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol y dylai pob awdurdod ymdrechu i gyrraedd y targedau.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau.

10. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw faterion.